

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 1

Canlyniadau Gwers 1

- Cynnig eu syniadau eu hunain ynghylch y gweithrediadau y dylid eu cynnwys mewn cyfres o weithrediadau cysylltiedig trwy ymateb yn ddychmygus i symbyliadau
- Creu a pherfformio dawns unigol sy’n arddangos amrywiaeth o weithrediadau dawns
- Disgrifio’r hyn y maent wedi’i gynnwys yn eu dawns gan ddefnyddio geiriau allweddol

Adolygu

Adolygwch yr hyn a ddysgwyd yn ystod yr uned flaenorol. Defnyddiwch y gŵm cerfluniau cerddorol fel gweithgaredd cynhesu. Anogwch y disgyblion i ddal siapiau cryf, clir a dychmygus pan fydd y gerddoriaeth yn stopio. Gofynnwch i’r disgyblion pryd y byddent yn debygol o chwarae’r gŵm hon. Cysylltwch y gweithgaredd ŵm’r thema ar gyfer yr uned hon, sef Parti Pen-blwydd. Dangoswch luniau i’r disgyblion o gacen pen-blwydd, anrhegion ac ati. Ysgogwch y disgyblion i feddwl am y daith i barti pen-blwydd trwy ofyn pa eiriau y byddent yn eu defnyddio i ddisgrifio’u teimladau/hwyliau wrth iddynt deithio i barti pen-blwydd. Cyffrous, hapus, diamynedd ac ati.

Archwilio

Eglurwch i’r disgyblion y byddant yn ystyried y daith i barti yn ystod rhan gyntaf eu dawns. Gofynnwch i’r disgyblion archwilio gweithrediadau teithio, neidio a throi mewn ymateb i’r symbyliad. Anogwch y disgyblion i feddwl am gyfeiriadau, cyflymder, llwybrau ac ati. Trafodwch y defnydd y gallant ei wneud o glapio/ystumio ŵm’r dwylo i’w helpu i gyfleu’u hwyliau.

Trac 3 ar CD sain Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2.

Creu

Fel unigolyn, lluniwch gymal dawns ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’ sy’n cynnwys amrywiaeth o weithrediadau a newidiadau o ran cyfeiriad a llwybrau ac ati. Wrth i’r disgyblion weithio, gofynnwch iddynt gynnig eu syniadau eu hunain ynghylch yr hyn y gallent ei gynnwys yn eu cymal dawns.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n defnyddio amrywiaeth o weithrediadau, llwybrau dychmygus, cyfeiriadau ac ati. Trafodwch y naws, a thynnwch sylw at ddisgyblion sy’n cyfleu’r naws hapus a chyffrous hon trwy gyfrwng eu gweithrediadau dawns. Pa agweddau ar eu gweithrediadau sy’n eu gwneud yn effeithiol?

Perfformio

Mae pawb yn perfformio gyda’i gilydd. Mae’r athro’n creu ymdeimlad o berfformio.

Gwerthuso

Mae’r athro’n arwain yr ymarfer hunanwerthuso drwy ddefnyddio ciwb symudiadau. Mae’r athro’n taflu’r ciwb symudiadau, sy’n glanio gan arddangos gweithred ... Sut y gwnaethoch chi ddefnyddio’r weithred hon? Os nad oeddech wedi defnyddio’r weithred hon, sut y gallech chi ei defnyddio? Mae’r athro’n taflu ciwb ŵm geiriau sy’n cyfleu naws arno ...

Pa weithrediadau y gwnaethoch chi eu defnyddio a oedd yn cyfleu’r naws honno? Beth allech chi ei wneud y tro nesaf i gyfleu’r naws hon yn fwy effeithiol?

